# SUT I OFALU AM .....
# WIWER RESOG



**Marian:** Mae Mam yn dweud y ca i anifail anwes a dw i wedi penderfynu cael gwiwer resog.

**Daniel:** Beth ar y ddaear ydy hwnnw neu honno?

**Marian:** CHIPMUNK! Y wiwer fach yna gyda streipiau du a gwyn a chynffon flewog tua 11cm.

**Daniel:** Ond be wyt ti'n ei wybod am yr anifail?

**Marian:** Paid â phoeni! Cyn penderfynu cadw unrhyw anifail anwes mae'n rhaid ystyried sawl peth, fel am ba hyd fydd yr anifail yn byw mewn caethiwed a beth fydd ei anghenion.

**Daniel:** Be wyt ti wedi ei ddarganfod ta?

**Marian:** Mi fedra i ei chadw yn y tŷ neu y tu allan. Os bydda i'n ei chadw y tu allan mi fydd yn rhaid cael cawell fawr fel adardy a rhoi hwnnw mewn lle cysgodol. Mi fydd angen bonion coed gwag neu bibellau i'r wiwer resog chwarae ynddyn nhw a changhennau gyda rhaffau i'w dringo. Bydd hi'n cysgu mewn bocsys nythu gyda shafins coed neu bapur fel gwely i gysgu ynddo ac i'w chadw'n gynnes.

**Daniel:** Ble fyddet ti'n ei chadw yn y tŷ?

**Marian:** Mewn cawell – un llai, wrth gwrs, ond gyda'r un math o bethau ynddi. Fydda i ddim yn gallu rhoi'r gawell yn rhy agos at wres a dydy'r wiwer ddim yn hoffi synau uchel.

**Daniel:** Mi fydd yn anodd iawn i ti benderfynu ble i'w chadw! A faint o waith bwydo fydd arni?

**Marian:** Gwneud yn siŵr bod digon o ddŵr ganddi drwy'r amser, wrth gwrs. Grawnfwyd fel ceirch corn a chnau fydd tua 50% o'i bwyd ac yna mi fydd arni angen llysiau, ffrwythau wedi eu golchi a glaswelltau.

**Daniel:** Fydd ei bwyd ddim yn gostus iawn felly.

**Marian:** Na fydd. Mi fydd hi'n storio bwyd sydd dros ben ac mi fydd yn rhaid i fi glirio hwnnw os bydd o wedi llwydo.

**Daniel:** O sôn am hynny, faint o waith glanhau fydd gen ti?

**Marian:** Mae'r wiwer resog yn bwyta ei baw ei hun ac mae hynny'n rhoi fitaminau ac ensymau hanfodol iddi!

**Daniel:** Ych a fi!

**Marian:** Os bydd hi yn y tŷ mi fydd angen glanhau'r gawell unwaith yr wythnos ac unwaith y mis os bydd hi y tu allan.

**Daniel:** Fydd costau milfeddyg yn uchel?

**Marian:** Dim mwy na'r cyffredin. Mi fydd hi'n cael archwiliadau rheolaidd ac mi fydd yn rhaid i fi gadw llygad i weld a ydy ei chôt sgleiniog yn mynd yn ddwl a'i llygaid disglair yn bŵl.

**Daniel:** Edrych ymlaen at dy weld yn gweithio fel milfeddyg! Marian ddy fet!

**Marian:** Un peth bach! Pan fydda i ar wyliau mi fydd angen i rywun ei bwydo bob dydd. Dw i'n gwybod y gwnei di hynny! Jyst tyrd â menyg cryfion gyda thi achos maen nhw'n tueddu i frathu! Gwna gwpan o dy ddwylo i afael ynddi a phaid â gafael ynddi gerfydd ei chynffon!

**Daniel:** Dos i ganu! Ofyr mai ded bodi!